## Er ei gyfarfod ar ffordd Emaus – Cleopas

**Darllen Luc 24:13–35**

Er ei gyfarfod ar ffordd Emaus,
nid oeddem wedi deall –
allwch chi gredu hynny?
Er gwaethaf tystiolaeth y gwragedd a'r apostolion,
y bedd gwag,
yr angylion,
ni allem ei dderbyn!

Mae'n debyg ein bod yn benderfynol fod y cyfan ar ben,
a derbyniwyd y ffaith fod ein breuddwydion wedi eu chwalu.
Nid oedd yn bosibl i ni feddwl yn wahanol,
rhag ofn i ni gael ein siomi eto.

Gallwch ein condemnio os mynnwch,
ond cofiwch hyn:
fe'i gwelsom yn hongian ar y groes,
yr oeddem wedi ei wylio yn tynnu ei anadl olaf,
ac yr oeddem yno yn ein dagrau
pan dynnwyd ef i lawr a'i gladdu yn y bedd.
Nid yn hawdd y mae rhywun yn anghofio hynny.
Felly, pan ymddangosodd y dieithryn hwn
ni welsom ddim byd anarferol –
pam y dylem ni?

Roedd y posibilrwydd mai Iesu ydoedd yn bell o'n meddyliau.
Hyd yn oed wrth iddo ddehongli'r ysgrythurau i ni,
gan egluro pam fod yn rhaid i'r Meseia ddioddef a marw,
nid oeddem yn amau dim –
er bod ein calonnau yn llosgi o lawenydd ynom.
Ond wrth eistedd gyda'n gilydd wrth y bwrdd,
cymerodd fara a'i dorri;
nid oedd yn bosibl hyd yn oed i ni beidio â gweld
y gwirionedd anhygoel mai hwn oedd Iesu.

Yr oedd y Crist croeshoeliedig, atgyfodedig
yno gyda ni!

Yr oeddem yn credu fod yr anturiaeth ar ben,
ond nid oedd ond megis dechrau.
Yr oeddem yn credu nad oedd dim ond atgofion ar ôl,
ond yn sydyn roedd y dyfodol yn galw yn llawn addewid.
Yr oedd y nos yn dod i ben,
a'r dydd yn gwawrio.

Yr oedd bywyd yn dechrau eto –
ac yno y safasom yn rhyfeddu at ei ras,
oherwydd nid ni a gyfarfu ag ef y diwrnod hwnnw;
ef ddaeth i'n cyfarfod ni!

**Gweddi:**
Arglwydd Iesu,
rwyt yn ein gwahodd ninnau fel dy ddisgyblion
i'th ddilyn di.
Rwyt yn ein galw fel y gelwaist eraill ym mhob cenhedlaeth:
'Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog,
ac fe gewch orffwystra i'ch eneidiau.'
Diolchwn i ti am dy wahoddiad,
ac fe ymatebwn yn llawen.
Ond, yn fwy na dim,
diolchwn dy fod ti yn dod atom ni
cyn i ni ddod atat ti.

Daethost at Pedr, Iago ac Ioan wrth y llyn;
at y newynog, y cleifion a'r gwrthodedig ar strydoedd Galilea;
at Mair Magdalen yn wylo yn yr ardd;
at y disgyblion blinedig ar ffordd Emaus;
at yr apostolion y tu ôl i ddrysau caeedig;
at Saul ar ffordd Damascus;
ac at dyrfa aneirif ers hynny.
Diolchwn mai ti sy'n cymryd y cam cyntaf bob amser,
gan alw dy bobl i ffydd.
Agor ein llygaid i'th bresenoldeb
ac arwain ni ymlaen yn dy wasanaeth,
er mwyn dy enw.

***Nick Fawcett, addasiad Olaf Davies***